Datganiad i'r News

Datganiad

I'w ryddhau ar unwaith: Dydd Mawrth 31 Ionawr 2012

DIGWYDDIAD MAWR I ROI HWB I FENTRAU GWLEDIG Y DU

Arbenigwyr yn dod at ei gilydd i ysbrydoli syniadau busnes arloesol i adfywio pentrefi gwledig

Pryd: Dydd Llun 27 Chwefror
Ble: Burlington House Hotel, Birmingham
Amser: 9:30am – 5:30pm
I gofrestru a chael mwy o wybodaeth: www.villagesos.org.uk

Mae cymunedau yng Nghymru'n cael eu hannog i ddod i ddigwyddiad pwysig sydd â'r nod o helpu cymunedau gwledig y DU i achub gwasanaethau hollbwysig a gwrthdroi dirywiad gwledig.

Bydd **Cynhadledd Genedlaethol Pentref SOS y Gronfa Loteri Fawr** yn galw ar yr ystod ehangach o arbenigwyr o'r ystod o sectorau menter wledig a chymdeithasol y DU i roi'r gefnogaeth y mae ei hangen ar gymunedau i adfywio eu pentrefi drwy sefydlu mentrau cymunedol - o siopau a thafarndai i brosiectau bwyd a chludiant lleol.

Ymunir â **Chadeirydd DU y Gronfa Loteri Fawr, Peter Ainsworth**, gan arweinwyr y sector, gan gynnwys Prif Weithredwr **Sefydliad Plunkett, Peter Couchman**, **Cadeirydd Co-operatives UK, David Button, Prif Weithredwr Action for Communities in Rural England (ACRE), Sylvia Brown** a **Phrif Weithredwr Locality, Steve Wyler**, y maent i gyd yn bartneriaid yn rhaglen Pentref SOS y Gronfa Loteri Fawr, sy'n darparu'r gefnogaeth fwyaf cynhwysfawr erioed i gymunedau sy'n sefydlu mentrau cymunedol ledled y DU.

Mae Cymru eisoes yn gartref i fentrau cymunedol hynod o lwyddiannus megis prosiect **Melin Talgarth** ym **Mhowys,** a adnewyddodd Melin Flawd o'r 18fed ganrif i gyflwr gweithredol, Popty a chaffi glan afon ym mhentref Talgarth; a phrosiect **Myddfai** yn **Sir Gâr**, a ddymchwelodd eu hen ganolfan gymunedol yn y pentref er mwyn datblygu menter fusnes newydd a arweinir gan y gymuned ynghyd â chyrchfan wledig o safon. Dyfarnodd y Gronfa Loteri Fawr grantiau i'r ddau brosiect, a ymddangosodd ar gyfres deledu oriau brig y BBC, Village SOS a gyflwynwyd gan Sarah Beeny, yr haf diwethaf.

....Tudalen 1//mwy i ddilyn

Yn y gynhadledd bydd cynrychiolwyr yn cael eu hysbrydoli a'u hannog i gychwyn eu prosiectau eu hunain ac ymunir â nhw gan arbenigwyr o bob rhan o'r DU, gan gynnwys **Canolfan Gydweithredol Cymru**, arbenigwyr ariannu busnesau a gweithwyr marchnata a chynllunio proffesiynol.

Meddai **Cadeirydd DU y Gronfa Loteri Fawr, Peter Ainsworth**, a fydd hefyd yn cadeirio'r gynhadledd: "Bob blwyddyn mae cannoedd o amwynderau lleol megis siopau a thafarndai'n cau i lawr mewn ardaloedd gwledig. Gall effeithiau hyn, ynghyd ag opsiynau cludiant cyfyngedig, unigedd gwledig a diffyg cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc i gyd daro ergyd i galon bywyd pentrefi. Bydd y gynhadledd Pentref SOS genedlaethol yn helpu pobl i fynd i'r afael â hyn i gyd drwy ddod â chefnogaeth, gwybodaeth a chyngor arbenigol ynghyd ar raddfa na roddwyd cyfle arni o'r blaen."

Meddai **Fflur Lawton, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus y Gronfa Loteri Fawr** yng Nghymru: "Dyma amser heriol, ond cyffrous, i gymunedau. Er eu bod yn wynebu heriau newydd, maen nhw'n troi'n gynyddol at eu hunain i ymdrin â'r materion y maent yn eu hwynebu, a bydd y digwyddiad Pentref SOS nodedig hwn yn darparu'r offer a'r ysbrydoliaeth y mae eu hangen ar gymunedau yng Nghymru i fynd i'r afael â'r problemau hyn eu hunain drwy sefydlu mentrau newydd yn eu cymunedau. Bydd yn gyfle unigryw i rannu dysgu o'r enghreifftiau gorau oll o fentrau cymunedol ym mhob cwr o'r DU."

Dyma gynhadledd hanfodol, sydd ar gael am ddim, ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymunedau gwledig a mentrau cymunedol. Bydd yn cynnwys gweithdai arbenigol ar bynciau megis cynllunio busnes a hygyrchu cyllid, cyd-drafodaethau ar y problemau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu a sut y gellir eu goresgyn, a'r cyfle i leisio eich barn am yr hyn y mae angen i chi ei wneud i adfywio eich pentref.

I gael mwy o wybodaeth ac i gadw lle yn y Gynhadledd Genedlaethol yn Birmingham, ewch i'r wefan Pentref SOS benodedig www.villagesos.org.uk neu ffoniwch ein llinell gymorth ar **0845 434 9123**.

Mwy o Wybodaeth:

Katherine Darling – Sefydliad Plunkett: 01993 810 730

E-bost: katherine.darling@plunkett.co.uk;

Nodiadau i Olygyddion

- Trwy Pentref SOS mae'r Gronfa Loteri fawr wedi ymrwymo dros £12 miliwn i wella mentrau cymunedol mewn pentrefi ar draws y DU . Dyfarnodd y Gronfa Loteri Fawr grantiau mawr i 10 menter gymdeithasol uchel eu proffil, yr ymddangosodd chwech ohonynt ar y gyfres deledu oriau brig, Village SOS, ar BBC1 yr hydref diwethaf. Dangosodd y mentrau cymunedol hyn i'r cyhoedd yr hyn y gallai cymunedau gwledig bach ei gyflawni. Ysbrydolodd cymunedau gwledig eraill hefyd gyda syniadau ynglŷn â sut y gallant adfywio eu cymunedau gwledig drwy sefydlu a rhedeg mentrau cymunedol llwyddiannus.
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydweithio ag ystod o fudiadau, gan gynnwys Sefydliad Plunkett, Locality, Action with Communities in Rural England a Co-operatives UK i ddatblygu cymuned ar-lein ac oddi ar-lein drwy wefan newydd www.villagesos.org.uk, cyfres o ddigwyddiadau ar draws y DU a chyfres newydd ar ffurf cylchgronau.

....Tudalen 2//mwy i ddilyn

- Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn annog rhwydwaith o aelodau i wireddu eu syniad am fenter gymunedol trwy'r adnoddau a gweithgareddau newydd hyn. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn dyfarnu 100 grant pellach o hyd at £30,000 yr un i gymunedau ledled y DU i'w helpu i lansio eu mentrau cymunedol.
- Mae'r **Gronfa Loteri Fawr**, dosbarthwr mwyaf arian achosion da y Loteri Genedlaethol yn gyfrifol am ddyrannu 46% o'r arian a godir ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol.
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i ddod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r rhai mwyaf anghenus, ac wedi bod yn dosbarthu grantiau ym meysydd iechyd, addysg, yr amgylchedd ac achosion elusennol ar draws y DU ers mis Mehefin 2004. Sefydlwyd y Gronfa'n swyddogol gan Senedd y DU ar 1 Rhagfyr 2006.
- Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, mae 28c o bob punt sy'n cael ei gwario gan y cyhoedd wedi mynd at achosion da. O ganlyniad i hyn mae dros £27 biliwn wedi'i godi a mwy na 370,000 o grantiau wedi'u dyfarnu ar draws meysydd y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau, iechyd, addysg a'r amgylchedd.

Diwedd//
Cyhoeddwyd:
WPN